

Bywluniadu yn y Cartref:

Evan Walters a Gweld Dwbl



Evan Walters: An Empty Frame. 1936. Olew ar gynfas. Oriel Gelf Glynn Vivian

GLYNN VIVIAN DYSGU-LEARNING

Ydych chi erioed wedi dal eich bys o flaen eich wyneb a gweld dau ohonyn nhw? Rhowch gynnig arni nawr. Wrth i chi ddod â'ch bys tuag at eich trwyn, mae e'n rhannu'n ddwy ac yn dod yn ddau fys tryloyw. Mae artistiaid yn aml wedi herio'r ffordd yr ydym yn gweld. Yn ystod cyfnod y Dadeni defnyddiwyd persbectif i greu realiti ar arwynebedd llun, fodd bynnag, ers hynny mae artistiaid o Cezanne i Monet, a Picasso a Braque i gyd wedi gofyn y cwestiwn; A yw persbectif yn wir adlewyrchiad o'r modd yr ydym yn gweld y byd?

Gofynnodd Evan Walters y cwestiwn hwn. Mae e'n defnyddio paentiadau i gynrychioli'r ffaith bod gennym ddwy lygaid ac nad yw'r llygaid rheini'n llonydd ac maen nhw'n symud drwy'r amser wrth i ni brosesu gwybodaeth o'n cwmpas. Sut mae gweld dwbl wedi'i gynrychioli yma gan Evan? Ystyriwch sut rydych yn gweld, mae eich llygaid yn symud drwy'r amser. Allwch chi feddwl am ffordd dda o gynrychioli sut rydym yn gweld?

Bywluniadu yn y Cartref Sialens 1: Allwch chi dynnu llun o gwrthrych o nifer o wahanol onglau ar yr un delwedd? Gallwch ganoli, gweithio ar fan-yllder, symud yn ôl a thynnu llun yn gyfan, symud eto a thynnu llun o ochr arall.

Bywluniadu yn y Cartref Sialens 2: Allwch chi ddefnyddio'r syniad hwn i greu paentiadau 4 dimensiwn, darn o waith celf sy'n arddangos sawl ochr o'r un gwrthrych a hynny ar yr un pryd.

Bywluniadu yn y Cartref Sialens 3: Gallwch chi feddwl am ffyrdd arall i herio ffyrdd traddodiadol o edrych?

Ar ôl i chi orffen llwythwch i fyny delwedd o'ch gwaith i'w cynnwys ar @glynnvivianlearning a #glynnviviandysgu a dweud wrthym ni am i'n